Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Rhos

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2021

gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Rhos

Mae Ysgol y Rhos wedi'i lleoli ar dir dau hen gaban gwyliau mewn ardal wledig rhwng Wrecsam a'r Wyddgrug.

Mae'r perchennog, Unique Care Homes Ltd., yn rhedeg pedwar cartref plant yn Wrecsam a Sir Ddinbych. Mae'r ysgol wedi'i chofrestru ar gyfer 16 o ddisgyblion rhwng 8 ac 16 oed ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae gan lawer o'r plant hanes o leoliadau'n chwalu a chael eu gwahardd o ysgolion prif ffrwd. Mae 12 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae pob disgybl sy'n mynychu'r ysgol yn byw yng nghartrefi gofal y cwmni.

Caiff llawer o'r plant eu lleoli gan awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys Gwynedd, Ynys Môn, a Chonwy. Caiff ychydig iawn o blant eu lleoli gan awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae ychydig o ddisgyblion o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith, ac maent wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol.

Agorwyd yr ysgol ym mis Mai 2019. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Mawrth 2019.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae llais y disgybl yn gryf ar draws yr ysgol. Mae pob disgybl yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y cyngor ysgol bob wythnos. Mae disgyblion yn cymryd eu rolau o ddifrif ac yn casglu barn eu cyfoedion i lywio'r cyfarfodydd. Mae'r adborth hwn wedi galluogi'r pennaeth i ymateb i sylwadau disgyblion, er enghraifft trwy ddatblygu polisi cwynion sy'n addas ar gyfer disgyblion.

Mae'r pennaeth, sydd ar fin gadael, wedi darparu arweinyddiaeth gref i'r ysgol. Yn ogystal â rheoli heriau gweithredol cadw'r ysgol yn agored trwy gydol y pandemig, mae hi wedi gweithredu newidiadau buddiol i'r cwricwlwm a'r systemau i gefnogi cynnydd disgyblion.

### Meysydd i'w datblygu

Nid yw'r ysgol wedi cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Mae gofod yn yr ysgol yn gyfyngedig ac nid yw adnoddau'n bodloni anghenion cwricwlwm y disgyblion. Mae gan y pennaeth gynllun i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd oddi ar y safle er mwyn gwneud lle i lai o ddisgyblion yn ddiogel ar safle'r ysgol. Yn ychwanegol, mae cyfyngiadau ar ofod yn atal disgyblion rhag cael cyfle digonol i fanteisio ar feysydd penodol y cwricwlwm, fel medrau bywyd a gwyddoniaeth. Mae gofod annigonol i ddisgyblion fwyta a chyfarfod gyda'i gilydd, ac felly datblygu medrau rhyngweithio cymdeithasol pwysig.

Mae staff o gartrefi plant cysylltiedig y cwmni yn darparu cymorth yn yr ysgol. Mae'r aelodau staff hyn wedi ymgymryd â dysgu proffesiynol addas i ddatblygu eu dealltwriaeth o les cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Fodd bynnag, ni chaiff staff cymorth eu defnyddio'n ddigon cyson ac nid oes ganddynt y strategaethau a'r medrau perthnasol i gefnogi dysgu a datblygiad medrau disgyblion yn briodol.

Nid yw cydweithio a rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng y tîm therapiwtig a staff addysgu wedi eu datblygu'n ddigonol. Nid yw dulliau therapiwtig presennol yn mynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion y disgyblion sydd wedi'u lleoli yn yr ysgol.

Bydd y pennaeth presennol yn gadael ei swydd ym mis Hydref 2021. Mae'r cwmni wedi cymryd camau i wneud trefniadau eraill dros dro i reoli'r newid hwn. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn yn ddigon cadarn i sicrhau parhad arweinyddiaeth ar draws yr ysgol.

### Argymhellion

Dylai'r ysgol:

A1 Gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

A2 Darparu gofod ac adnoddau priodol i gefnogi addysgu a dysgu ar draws y cwricwlwm.

A3 Sicrhau bod staff cymorth yn meddu ar fedrau a hyfforddiant addas i fodloni anghenion dysgu disgyblion

A4 Cryfhau'r defnydd o asesiadau ac ymyriadau therapiwtig i lywio'r modd y mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm

A5 Sicrhau arweinyddiaeth effeithiol yn yr ysgol

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- 1(3) f- Sicrhau bod ansawdd, nifer ac ystod yr adnoddau ystafell ddosbarth yn ddigonol, ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- 3 (7) ddefnyddio staff i sicrhau bod disgyblion yn cael eu goruchwylio'n briodol

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- 5 (j) Ddarparu ystafelloedd dosbarth sy'n briodol o ran maint i alluogi addysgu effeithiol, nad yw'n peryglu iechyd a diogelwch o ystyried nifer, oedran ac anghenion (yn cynnwys unrhyw anghenion arbennig) disgyblion
- 5(m) sicrhau bod cyfleusterau digonol ar gyfer paratoi, gweini a bwyta bwyd yn hylan mewn mannau ble caiff bwyd ei weini
- 5(n) Sicrhau bod ystafelloedd dosbarth a rhannau eraill o'r ysgol yn cael eu cynnal mewn cyflwr taclus, glân a hylan
- 5 (r) Sicrhau bod y dodrefn a'r gosodiadau wedi cael eu dylunio'n briodol ar gyfer oedran ac anghenion (yn cynnwys unrhyw anghenion arbennig) yr holl ddisgyblion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio’n llawn â’r gofynion hyn, dylai’r ysgol fynd i’r afael â’r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.